# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Rickeston Mill**

**CARTREF NYRSIO RICKESTON MILL**
**RICKESTON BRIDGE**
**Hwlffordd**
**SA62 3DJ**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Rickeston Mill

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Rickeston Care Home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 04/08/2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sydd wedi ymgartrefu yn Rickeston Mill yn derbyn eu gofal a'u cymorth gan dîm o staff llawn cymhelliant. Mae gwybodaeth ar gael i'r staff gofal er mwyn iddynt ddeall y ffordd orau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae'r staff gofal yn wybodus, yn barchus ac yn trin y bobl ag urddas.

Mae'r bobl yn ymddangos yn fodlon â'r cymorth y maent yn ei gael a dywedodd eu perthnasau eu bod yn fodlon iawn â'r gofal a ddarpeir, gan deimlo bod y staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn ymwybodol o'u hoff bethau a'u dewisiadau penodol. Mae'r staff gofal yn deall anghenion iechyd y bobl a gwneir atgyfeiriadau amserol i geisio cyngor a chanllawiau pan fo angen. Caiff y cartref ei gefnogi gan amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt i gadw mor iach â phosibl.

Mae'r darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth, ac mae systemau ar waith i sicrhau y caiff ansawdd y cartref ei fonitro.

## Llesiant

Mae'r staff yn trin y bobl â pharch ac yn ymrwymedig i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r bobl a'u perthnasau yn canmol y staff a gwelsom staff gofal yn rhoi cymorth yn dawel, gydag urddas a pharch. Mae'r cofnodion gofal yn gynhwysfawr a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Gwnaethom siarad â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, gyda pherthnasau a'r staff, a gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos y caiff atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol perthnasol eu gwneud yn brydlon. Mae gan y staff gofal wybodaeth dda am anghenion y bobl, maent bob amser yn cyfeirio at y bobl mewn modd cadarnhaol, ac roedd yn amlwg eu bod yn adnabod y bobl roeddent yn eu cefnogi yn dda. Cadarnhawyd hyn gan yr aelodau o'r teulu y gwnaethom siarad â nhw. Gwelsom y staff gofal yn eistedd gyda'r bobl, yn rhyngweithio â nhw'n dda ac yn cymryd diddordeb yn eu llesiant personol, sawl gwaith.

Nodir dewisiadau gofal y bobl a'u trefn arferol yn eu cynlluniau personol ac roedd gan bob aelod o'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth dda am y rhain. Mae ystod o asesiadau a chynlluniau personol yn tywys staff ar sut i ddiwallu anghenion unigol y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae cofnodion dyddiol yn dangos bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, yn unol â'u cynlluniau personol. Dengys y cofnodion fod y bobl yn cael y feddyginiaeth a ragnodwyd ar eu cyfer. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo safonau hylendid a rheoli heintiau da i leihau'r risgiau o groes-heintio.

Caiff y bobl eu cefnogi i wneud penderfyniadau ac i reoli eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom bobl yn eistedd mewn ardaloedd amrywiol yn y cartref ac yn mwynhau cwmni eraill os oeddent yn dymuno. Gwelsom fod y staff gofal yn rhyngweithio â phobl mewn modd ystyriol ac roeddent yn parchu dymuniadau'r bobl. Caiff y bobl eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ac unigol o'u dewis. Mae dewis ynghylch prydau bwyd a dywedodd y bobl wrthym y gallant godi a mynd i'w gwely pan y dymunant.

Mae systemau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag niwed. Mae'r staff gofal yn weladwy ac yn talu sylw i anghenion y bobl. Mae cyfarpar yn eu lle, yn ôl yr angen, i hyrwyddo diogelwch a chysur y bobl. Mae'r staff yn cwbhau hyfforddiant mewn perthynas â diogelu oedolion sy'n agored i niwed. Mae'r staff gofal yn ymateb yn brydlon i geisiadau'r bobl am gymorth. Maent yn derbyn hyfforddiant gorfodol ac arbenigol sy'n eu helpu yn eu rolau.

Mae'r bobl yn byw mewn llety glân a chyfforddus. Mae ganddynt fynediad at ardd, dwy lolfa ac ardal fwyta. Mae'r ystafelloedd cymunedol a phreifat yn gartrefol ac wedi'u dodrefnu'n dda yn gyffredinol. Caiff cyfarpar ei wasanaethu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Mae mesurau diogelwch amgylcheddol ar waith a chaiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cynnal.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm o staff sylwgar. Anogir rhyngweithio cymdeithasol a gwelsom staff gofal yn ymateb i anghenion a cheisiadau'r bobl yn brydlon ac mewn modd urddasol a pharchus.

Caiff asesiadau eu cynnal i sicrhau y gall y gwasanaeth fodloni anghenion penodol y bobl cyn iddynt symud i mewn. Mae asesiadau risg a chynlluniau personol yn amlinellu sut y dylid diwallu anghenion gofal a chymorth y bobl, gan gymryd i ystyriaeth eu dewisiadau gofal a'u trefn arferol. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael mewnbwn gan wasanaethau meddygol ac arbenigol, os oes angen, er mwyn hybu eu hiechyd a'u llesiant.

Mae dealltwriaeth ynghylch pwysigrwydd maeth da. Mae'r staff arlwyo yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn gwybod y rôl bwysig sydd ganddynt yng ngofal a llesiant y bobl. Darperir prydau bwyd wedi'u rhewi sy'n gytbwys o ran maeth ar gyfer prif brydau bwyd ac mae dewis o'r rhain ar gael bob amser. Dywedwyd wrthym os nad yw'r bobl eisiau'r prydau a gynigir, gellir gwneud dewis o opsiynau eraill iddynt. Dywedwyd wrthym bod bwyd ar gael y tu allan i adeg prydau bwyd, ac mae bwyd yn cael ei gyfnerthu yn ôl yr angen. Mae bwyd ffres ar gael i bobl a chaiff digwyddiadau arbennig eu dathlu. Gwelsom fod rhai pobl yn bwyta eu pryd yn yr ystafell fwyta tra bo eraill yn bwyta eu pryd nhw yn y ddwy lolfa. Gwelsom weithwyr gofal yn helpu'r bobl mewn ffordd sensitif ac nad oedd y bobl yn cael eu rhuthro adeg prydau bwyd.

Anogir y bobl i gymryd rhan mewn pethau y maent yn eu mwynhau. Yn ystod yr arolygiad gwelsom rai pobl yn canu, rhai yn gwylio'r teledu a rhai yn cymryd rhan mewn gweithgareddau unigol megis lliwio a hel atgofion. Mae gweithiwr gweithgareddau dynodedig sy'n helpu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau megis celf a chrefft a gweithgareddau garddio.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Darperir llety dros ddau lawr ac mae lifft ar gael i'r bobl ei ddefnyddio er mwyn symud rhwng lloriau.

Mae nifer o ardaloedd cymunedol, gan gynnwys yr ystafell fwyta a dwy lolfa.   Roedd y rhain i'w gweld mewn cyflwr da, yn daclus ac yn lân. Oherwydd oedran yr adeilad, mae'r ystafelloedd gwely o wahanol siapiau a meintiau. Gwelsom fod yr ystafelloedd gwely wedi'u personoli â lluniau, ornamentau a llenni a deunyddiau. Roedd pob ystafell wely a welwyd yn lân ac yn gyfforddus heb unrhyw arogleuon drwg. Mae'r safonau glendid drwy'r cartref yn gyffredinol dda ac mae cynnydd wedi bod yn yr amser glanhau ers yr arolygiad blaenorol.

Mae gan yr ystafell fwyta bellach fleinds wrth y ffenestri ac mae'r ardaloedd cymunedol wedi cael eu paentio a'u haddurno ers yr arolygiad blaenorol. Roedd yr ystafelloedd ymolchi i'w gweld yn lân, yn hawdd mynd atynt ac yn daclus.

Mae ardal awyr agored diogel wedi'u hamgáu y gellir mynd ati o'r ystafell fwyta. Dywedwyd wrthym y byddai'r cydlynydd gweithgareddau yn treulio amser yn helpu'r bobl i ddefnyddio'r ardal hon i gymryd rhan mewn gweithgareddau megis plannu blodau neu i fwynhau eistedd yn yr awyr agored pan fydd y tywydd yn caniatáu. Maer'r cartref wedi'i leoli mewn gerddi eang a dywedwyd wrthym eu bod am gael eu datblygu ymhellach er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch i'r bobl.

Gall y bobl fod yn hyderus eu bod yn byw mewn amgylchedd diogel. Mae'r brif fynedfa yn ddiogel, cadarnhawyd pwy oeddem a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr cyn i ni gael mynd i mewn. Cedwir dogfennaeth gofal y bobl yn electronig, ac maent yn cael eu diogelu gan gyfrinair.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn cadw mewn cysylltiad dros y ffôn yn rheolaidd.

Mae systemau ar waith i sicrhau bod y cyfarpar a'r gwasanaethau yn cael eu cynnal a'u cadw'n addas ac mae'r gweithiwr cynnal a chadw yn cyflawni gwiriadau gweledol ar gyfarpar ac yn gwneud rhywfaint o waith atgyweirio.

Caiff y staff gofal eu penodi yn dilyn proses recriwtio sy'n cynnwys geirdaon, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a ffotograffau adnabod. Caiff y staff tramor eu recriwtio drwy asiantaeth ac mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda nhw i sicrhau y caiff bob gwiriad gofynnol ei gyflawni.

Teimla'r staff eu bod wedi cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel ac yn effeithiol a darperir hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen. Caiff ychydig o'r hyfforddiant ei gynnal ar-lein gydag asesiad i sicrhau bod gan y staff y cymwyseddau angenrheidiol. Mae'r matrics hyfforddiant yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff gofal yn cyfarfod uwch-gydweithiwr er mwyn cael eu goruchwylio, a byddant yn cael adborth ar eu gwaith.

Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn rhan o'r tîm. Mae'r staff arlwyo a chadw tŷ yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn ystyried y caiff eu rôl bwysig yn y gwasanaeth ei chydnabod a'i pharchu. Mae'r gweithwyr gofal a benodwyd yn ddiweddar hefyd yn teimlo'n rhan o'r tîm ac yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth maent wedi ei chael gan weddill y staff.

Gwnaethom siarad â'r staff gofal, y bobl sy'n byw yn y cartref a'u perthnasau, a ddywedodd wrthym eu bod nhw'n teimlo bod digon o staff ar ddyletswydd yn gyffredinol i ddiwallu anghenion y bobl yn effeithiol. Drwy gydol yr arolygiad gwelsom staff gofal yn eistedd gyda phreswylwyr yn y ddwy lolfa, yn siarad â nhw ac yn rhyngweithio'n dda. Gwelsom amseroedd bwyd lle roedd staff gofal yn cefnogi'r bobl ac yn eu hannog gyda'u prydau bwyd. Hefyd gwelsom staff gofal yn helpu'r bobl i symud drwy'r cartref yn briodol, â thosturi ac mewn ffordd bwyllog ac ymlaciol.

Mae trefniadau llywodraethu ar waith ac yn sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni gofynion y rheoliadau. Mae ystod o archwiliadau a gwiriadau ar waith a gwelsom fod yr Unigolyn Cyfrifol wedi cyflawni gofynion rheoliadol ynghylch ymweld â'r cartref.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 73 | Yr ymweliad diwethaf i'r Unigolyn Cyfrifol ei wneud i'r gwasanaeth oedd ar 20/04/2022. Nid yw wedi ymweld â'r cartref o leiaf bob tri mis er mwyn cyfarfod y bobl a'r staff i gael adborth uniongyrchol am y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |
| 44 | Mae dal angen ailaddurno ac adnewyddu rhannau o'r cartref. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/06/2023